



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

GWYS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan

Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian

Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswilt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democraidd (01443 424098)

DYMA WYS I CHI i gyfarfod hybrid o CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF sydd i'w gynnal ar DYDD MERCHER, 28AIN MEDI, 2022 am 5.00 PM.

AMSER	EITEM	TUDALEN(N AU)
5 Munud	<p>ITEM 1. DATGAN BUDDIANT</p> <p>Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor</p> <ol style="list-style-type: none">1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.	
45 Munud	<p>ITEM 2. RHYBUDD O GYNNIG</p> <p><u>CYNNIG - CYDYMDEIMLO</u></p> <p>Wedi'i gynnig gan y Cyngorydd A Morgan (Arweinydd y Cyngor)</p> <p>Eiliwyd gan y Cyngorydd K Morgan (Arweinydd yr Wrthblaid)</p> <p>Wedi'i gefnogi gan Y Cyngorydd M Powell (Arweinydd y Grŵp Annibynnol) a'r Cyngorydd S Trask (Arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr)</p> <p>"Mae'r Cyngor yma'n mynegi ei dristwch dwys am farwolaeth Ei"</p>	

	Mawrhydi, Y Frenhines, ac yn cydymdeimlo'n ddiffuant â'i Fawrhydi, Y Brenin, ac aelodau eraill o'r Teulu Brenhinol. Rydyn ni'n cydnabod ymrwymiad parhaus Ei Mawrhydi i wasanaeth cyhoeddus a dyletswydd, gan gynnwys ei chefnogaeth i lawer o elusennau a sefydliadau Cymreig, a'i chysylltiad a'i hymroddiad gydol oes i Gymru a'i phobl."	
5 Munud	ITEM 3. CYHOEDDIADAU	
5 Munud	ITEM 4. COFNODION Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022, yn rhai cywir.	5 - 30
	LLYWODRAETHU AGORED:	
10 Munud	ITEM 5. DATGANIADAU Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet:	
20 Munud	ITEM 6. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor. (Nodwch: Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.)	31 - 38
	RHAGLEN WAITH Y CYNGOR – ER GWYBODAETH I AELODAU <u>Rhaglen Waith Y Cyngor 2022/2023</u>	
	ADRODDIADAU'R SWYDDOGION	
25 Munud	ITEM 7. Y CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG – Y NEWYDDION DIWEDDARAF Rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2022/23 – 2025/2026	39 - 46
10 Munud	ITEM 8. BLAENORIAETHAU BUDDSODDI'R CYNGOR Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol	47 - 50
10 Munud	ITEM 9. ADOLYGIAD O DELERAU AC AMODAU'R CYNGOR Derbyn adroddiad ar y cyd y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol	51 - 54

ITEM 10. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

At: Pob Aelod o'r Cyngor

tudalen wag

PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CYNGOR

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 6 Gorffennaf 2022 am 5.00 pm.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:

Y Cynghorydd G Hughes – Cadeirydd

Y Cynghorydd L Addiscott	Y Cynghorydd M Ashford
Y Cynghorydd J Barton	Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd J Brencher	Y Cynghorydd P Binning
Y Cynghorydd J Bonetto	Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd G Caple	Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd J Cook	Y Cynghorydd V Dunn
Y Cynghorydd R Davis	Y Cynghorydd J Edwards
Y Cynghorydd E L Dunning	Y Cynghorydd A Ellis
Y Cynghorydd L Ellis	Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd S Emanuel	Y Cynghorydd Sera Evans
Y Cynghorydd D Evans	Y Cynghorydd R Evans
Y Cynghorydd D Grehan	Y Cynghorydd H Gronow
Y Cynghorydd B Harris	Y Cynghorydd S Hickman
Y Cynghorydd G Holmes	Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd W Hughes	Y Cynghorydd K Johnson
Y Cynghorydd G O Jones	Y Cynghorydd G Jones
Y Cynghorydd R Lewis	Y Cynghorydd W Jones
Y Cynghorydd C Leyshon	Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd C Lisles	Y Cynghorydd M Maohub
Y Cynghorydd C Middle	Y Cynghorydd A Morgan
Y Cynghorydd N H Morgan	Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd D Owen-Jones	Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd W Owen	Y Cynghorydd C Preedy
Y Cynghorydd D Parkin	Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd S Rees	Y Cynghorydd M Rees-Jones
Y Cynghorydd A Rogers	Y Cynghorydd A Roberts
Y Cynghorydd J Smith	Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd L A Tomkinson	Y Cynghorydd B Stephens
Y Cynghorydd W Treeby	Y Cynghorydd S Trask
Y Cynghorydd J Turner	Y Cynghorydd R Williams
Y Cynghorydd G Warren	Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd D Williams	Y Cynghorydd G Williams
Y Cynghorydd D Wood	Y Cynghorydd T Williams

Y Cyngorydd R Williams

Y Cyngorydd R Yeo
Y Cyngorydd A S Fox

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr

Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol

Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democratiaidd a Chyfathrebu

Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

5 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod hybrid y Cyngor a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Jane-Davies, J Elliott, M Norris, S Powderhill a K Webb.

Roedd y Cynghorwyr a'r swyddogion canlynol yn bresennol yn Siambra y Cyngor: Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol L Addiscott, M Ashford, J Barton, P Binning, J Bonetto, S Bradwick, J Cook, A Crimmings, R Davies, V Dunn, E Dunning, J Edwards, S Emmanuel, S Evans, D Grehan, B Harris , S Hickman, G Holmes, G Hughes, W Hughes, G Jones, Geraint Jones, W Jones, R Lewis, W Lewis, C Leyshon, M Maohoub, C Middle, A Morgan, N Morgan, S Morgans, D Parkin, C Preedy, S Rees, M Rees-Jones, J Smith, B Stephens, L Tomkinson, S Trask, J Turner a R Williams.

Mr C. Bradshaw, Prif Weithredwr, Mr B Davies, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol, Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democratiaidd a Chyfathrebu, Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol a Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant.

Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R Bevan, J Brencher, G Caple, A Ellis, L Ellis, D Evans, Sera Evans, R Evans, A S Fox, H Gronow, G Hopkins, K Johnson, C Lisles, K Morgan, D Owen-Jones, W Owen, M Powell, A Roberts, A Rogers, G Stacey, W Treeby, G Warren, M Webber, D Williams, G Williams, T Williams, D Wood a R Yeo.

6 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Eitem 9 ar yr Agenda - ADOLYGIAD O RADDAU ISAF Y CYNGOR A MATERION O RAN TELERAU AC AMODAU

Datganodd y Cyngorydd S Emmanuel y buddiant personol a'r buddiant sy'n rhagfarnu canlynol – “Mae fy ngwraig yn gynorthwy-ydd addysgu gradd 5 ac wedi'i chyflogi gan Gyngor RhCT”

Datganodd y Cyngorydd W Lewis y buddiant personol a'r buddiant sy'n rhagfarnu canlynol – “ Mae fy merch-ying-nghyfraith wedi'i chyflogi ar radd 2”

Datganodd y Cyngorydd R Lewis y buddiant personol canlynol – “ Cyfeirir at deitl swydd aelod agos o'r teulu yn yr adroddiad er nad yw'n fuddiolwr”

Datganodd y Cyngorydd M Powell y canlynol:

Personol – "Rwyf wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ar bob mater sy'n ymwneud â'r gyllideb bresennol ac arfaethedig ar gyfer 2022-23, gan y byddai pob un o'r eitemau hynny'n adlewyrchu addasiad i'r gyllideb ac mae fy ngwraig yn gweithio i'r Awdurdod Lleol."

Eitem 10 ar yr Agenda - PENODI PRIF WEITHREDWR

Datganodd Mr Paul Mee fuddiant personol – “Byddaf i'n gadael y siambr yn ystod yr eitem hon ac ar ôl i mi gyflwyno fy adroddiad”

Eitem 11 ar yr Agenda - ADRODDIAD AR SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD - CWM TAF MORGANNWG

Datganodd y Cyngorydd R Bevan y buddiant personol a'r buddiant sy'n rhagfarnu canlynol – “Mae fy merch yn gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol”

Datganodd y Cyngorydd M Rees-Jones fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu – “Rwy'n gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol”

Datganodd y Cyngorydd K Morgan fuddiant personol – “Rwy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg”

Eitem 16 ar yr Agenda – RHYBUDD O GYNNIG BRYS

Datganodd y Cyngorydd S Trask y buddiant personol canlynol – “Rwy'n aelod o Unite the Union”

Datganodd y Cynghorydd R Williams y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o Unite the Union”

Datganodd y Cynghorydd C Preedy y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o Unite the Union”

Datganodd y Cynghorydd R Bevan y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o Unite the Union”

Datganodd y Cynghorydd K Morgan y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o’r undeb llafur”

Datganodd y Cynghorydd R Yeo y buddiant personol canlynol – “Rydw i wedi ailymuno â GMB yn ddiweddar”

Datganodd y Cynghorydd M Webber y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o Unison”

Datganodd y Cynghorydd Sheryl Evans y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o Unison”

Datganodd y Cynghorydd G Jones y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o Unite the Union”

Datganodd y Cynghorydd A Crimmings y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o Unison”

Datganodd y Cynghorydd J Edwards y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o Unison”

Datganodd y Cynghorydd R Davies y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o Unison”

Datganodd y Cynghorydd M Ashford y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o Unison”

Datganodd y Cynghorydd W Lewis y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o GMB”

Datganodd y Cynghorydd W Hughes y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o Unite the Union”

Datganodd y Cynghorydd C Middle y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o Unite the Union”

Datganodd y Cyngorydd M Maohoub y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o Unite the Union”

Datganodd y Cyngorydd S Emmanuel y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o Unite the Union”

Datganodd y Cyngorydd Sera Evans y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o Unison”

Datganodd y Cyngorydd G Caple y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod wedi ymddeol o Unison”

Datganodd y Cyngorydd G Hughes y buddiant personol canlynol – “Rwy’n aelod o GMB”

Yn dilyn cau'r cyfarfod, daeth y datganiadau o fuddiant yma i law, doedden nhw ddim wedi'u nodi gan yr aelodau dan sylw fel rhan o'r cofnodion:

Eitem 9 ar yr Agenda - Adolygiad o Raddau Isaf Y Cyngor A Materion o Ran Telerau ac Amodau - Datganodd y Cyngorydd J Barton y buddiant personol canlynol –“Mae gan fy mab gyfweliad am swydd ar y graddau is ym maes cyllid a gweinyddu”

Eitem 16 ar yr Agenda – Rhybudd o Gynnig Brys - Datganodd y Cyngorydd J Cook y buddiant personol canlynol - “Rwy’n aelod o GMB”

7

Cofnodion

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- 9 Mawrth 2022
- 25 Mai 2022 (Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Cyngor)
- 25 Mai 2022 (Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor)

8

Cyhoeddiadau

Cafodd y cyhoeddiadau canlynol eu gwneud:

Cyhoeddodd y Cyngorydd A Morgan fod Canolfan Bowls Dan Do Cwm Cynon yn Aberpennar bellach wedi ailagor ar ôl iddi gael ei defnyddio'n ganolfan frechu a chanolfan profi torfol. Roedd y Cyngorydd Morgan yn dymuno diolch i'r ganolfan a staff y Cyngor am eu gwaith yn ystod y cyfnod hwn. Cyhoeddodd

hefyd fod nifer o chwaraewyr wedi cael eu dewis i chwarae yng Ngemau'r Gymanwlad. Dymunodd longyfarch 3 chwaraewr o Glwb Bowls a Chymuned Harlequin, fydd yn cynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad ym mis Gorffennaf, sef Ross Owen o Aberpennar a Jarred Green o ardal Gilfach-goch sy'n rhan o dîm o bump. Bydd Paul Brown o Hirwaun hefyd yn cynrychioli Cymru yn rhan o dîm o bedwar yn y gystadleuaeth Para.

Roedd y Cyngphonydd J Edwards yn dymuno llonyfarch tîm Ynyshir Albions ar eu llwyddiant diweddar. Soniodd y Cyngphonydd Edwards am gynnydd y tîm dros y blynnyddoedd diwethaf a'r gwelliannau enfawr y mae'r Clwb wedi'u cyflawni i'r eisteddleoedd, y cae a'r maes yn rhan o ymgyrch hunan-ariannu a arweiniodd at sicrhau achrediad haen 3 yn rhan o'r broses ailstrwythuro. Maen nhw wedi symud o haen saith i haen dau mewn dim ond 6 thymor pêl-droed. Aeth y Cyngphonydd Edwards ati i longyfarch y tîm ar yr hyn y maen nhw wedi'i gyflawni.

Cyhoeddodd y Cyngphonydd S Evans fod bachgen lleol Ty Lewis wedi cael ei ddewis i chwarae rygbi dros dîm rygbi Beziers yn Ne Ffrainc yn rhan o gytundeb 3 blynedd. Ychwanegodd fod Ty wedi dechrau ei yrfa rygbi yng nghwlbyd rygbi Abercwmboi cyn cael ei ddewis i chwarae dros Beziers. Cyhoeddodd y Cyngphonydd Evans hefyd fod bachgen lleol arall, Adam De Vet, wedi cael ei ddewis i gynrychioli Cymru yn ystod Pencampwriaethau'r Byd Wako yn Jesolo, Yr Eidal ym mis Hydref 2022. Gofynnodd y Cyngphonydd Evans a fyddai modd iddi hi, gyda chaniatâd y Llywydd, rannu'r ffurflen noddi i gefnogi Adam gyda'i daith. Ar ran y Maer, cadarnhaodd y Llywydd y byddai'r ddau yn cael eu gwahodd i barlwr y Maer ynghyd â'u teulu.

Cyhoeddodd y Cyngphonydd G Jones y bydd Gŵyl Gerddoriaeth Caradog, sy'n datlu ei phen-blwydd yn 150 oed, yn cael ei chynnal am ddim ar 15/16 Gorffennaf. Bydd ystod eang o gerddorion, corau a cherddoriaeth fyw.

Cyflwynodd y Cyngphonydd D Parkin ddeiseb ar ran Cyfeillion Tonyrefail, sy'n mynegi pryderon yngylch cynigion ar gyfer Safle W.R Bishop ar Ffordd Penrhiwfer.

9

Datganiadau

Datganiadau gan Arweinydd y Fwrdeistref Sirol, Cyngphonydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan mewn perthynas â Llifogydd a'r Gronfa Bensiwn:

Datganiad – Cronfa Bensiwn

Dyweddodd yr Arweinydd fod Cronfa Bensiwn RhCT bob amser wedi buddsoddi

ei hasedau mewn ffordd gyfrifol ac yn ymgysylltu â chwmnïau er mwyn sicrhau trawsnewidiad carbon trefnus. Mae hyn eisoes wedi arwain at leihad parhaus yn ein daliadau tanwydd ffosil a sefydlu egwyddorion dadfuddsoddi.

Cyhoeddodd yr Arweinydd ei fod wedi gofyn i swyddogion weithio gyda'r Pwyllgor Pensiyau, yn rhan o'n nodau newid yn yr hinsawdd, i adolygu opsiynau ar gyfer pennu targed ar gyfer dadfuddsoddi gweddill ein buddsoddiadau o asedau yn ymwneud ag echdynnu tanwydd ffosil.

Dyweddodd yr Arweinydd ei fod yn gobeithio gweld hyn erbyn 2030, er bod rhai awdurdodau lleol wedi pennu targedau sy'n gynharach na hynny. Roedd yr Arweinydd wedi cydnabod bod gan y Cyngor gyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gronfa Bensiwn a'n bod yn cyd-fuddsoddi â chronfeydd eraill ledled Cymru. I gloi, pwysleisiodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldebau o ddifrif a bydd cynlluniau i ddadfuddsoddi yn cael eu pennu yn ystod y misoedd nesaf.

Datganiad – Llifogydd

Dyweddodd y Cynghorydd Morgan fod 52 o brosiectau wedi cyrraedd y cam dylunio erbyn hyn, a rhoddodd wybodaeth am nifer o'r rhain:

- Dechreuwyd gwaith yn rhan o Gynllun Lliniaru Llifogydd ar ran uchaf Teras Bronallt, Abercwmboi, dros wythnos yn ôl. Amcangyfrifir bod y gwaith gwerth £720,000
- Bydd Cam 1 y cynllun llifogydd yn Nhreorci yn cychwyn yr wythnos nesaf. Amcangyfrifir bod y gwaith gwerth £605,000
- Gorllewin Parc Cae Felin, Hirwaun (cynllun ail-leinio cwlfert) y mae disgwyl iddo ddechrau ym mis Awst. Amcangyfrifir bod y gwaith gwerth £165,000
- Gorsaf Bwmpio Glenbói yn Aberpennar - mae'r tendr wedi dychwelyd gydag amcangyfrif o werth o £1.3 miliwn
- Heol Bryn-tyle a Ffordd y Cae Ŷd yn Rhydfelen. Amcangyfrifir bod y gwaith gwerth £250,000
- Leinio cwlferti ym Mhentre. Amcangyfrifir bod y gwaith gwerth £175,000.
- Mae buddsoddi mewn cynlluniau lliniaru llifogydd a draenio hefyd yn flaenorïaeth i'r Cyngor - yn rhan o Raglen Gyfalaf gwerth £26.3 miliwn ar gyfer Prifyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol yn 2022/23.

- Yn ogystal â hyn, mae dros £6.5 miliwn wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith a difrod sy'n gysylltiedig â Storm Dennis eleni. Mae gwaith dymchwel Pont Castle Inn yn Nhrefforest wedi dechrau. Cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd proffil pellach yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Mae bron i £500,000 wedi'i sicrhau yn rhan o gynlluniau Ffyrdd Cydnerth, prosiectau graddfa fach a fydd yn diogelu ffyrdd a llwybrau bysiau allweddol. Bydd llawer o'r prosiectau llifogydd ffyrdd hefyd yn diogelu cartrefi ac eiddo. Mae cyllid pellach gwerth £3.3 miliwn wedi'i sicrhau ar gyfer cynlluniau llifogydd. Bydd yr arian yma'n talu am nifer o gynlluniau llai a gwaith uwchraddio cwlferi, cyrsiau dŵr a ffosydd.
- Mae cyllid pellach gwerth £7 miliwn wedi'i wario ers Storm Dennis ar domenni glo, yn bennaf ar gamau 1-3 o gynllun tomen Tylorstown. Mae gwaith hefyd wedi'i gynnal gyda Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Glo i sefydlogi Tomen Wattstown sy'n eiddo preifat.
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda chontractwyr ar gam nesaf tirlithriad Tylorstown, bydd y cytundeb yn cael ei gadarnhau dros yr haf. Bydd gwaith pellach i wella'r ffyrdd mynediad yn cael ei gynnal dros y Gaeaf a bydd y prif waith peirianneg yn dechrau yn 2023, gan ddibynnu ar y tywydd. Bydd LIC yn ariannu'r gwaith.
- Mae llawer o waith yn cael ei wneud i benderfynu beth sydd angen ei wneud i lliniaru llifogydd, ystafell argywng newydd ac adnewyddu cynllun argywng y Cyngor a bydd yn parhau i fod yn rhan sylweddol o gyllideb y Cyngor.
- Pe byddai digwyddiad arall fel Storm Dennis, dywedodd yr Arweinydd y byddai llifogydd sylweddol yn dal i ddigwydd ar draws y fwrdeistref sirol. Mae angen i Gyfoeth Naturiol Cymru gwblhau gwaith modelu, gan gynnwys dadansoddiad o'r system yn ardaloedd Taf-elái, Cwm Cynon a Chwm Rhondda, er mwyn penderfynu pa waith sydd angen ei gynnal yn y dyfodol. Bydd angen lobio pellach ar gyfer buddsoddiad pellach gan CNC a LIC i amddiffyn ein cymunedau yn well rhag llifogydd afonydd.
- Bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei rhannu yn yr Hydref.

10 Cwestiynau gan yr Aelodau

1. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Davis i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:

"Yn sgil y buddsoddiad nesaf ar gyfer mannau chwarae ledled RhCT a gafodd ei gyhoeddi'n ddiweddar, all yr Aelod o'r Cabinet gadarnhau a yw'r maes yma'n parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y weinyddiaeth newydd?

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Crimmings:

Dyweddodd y Cynghorydd Crimmings fod buddsoddi mewn mannau chwarae yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r weinyddiaeth hon ac fel y nodwyd ym maniffesto Grŵp Llafur RhCT ar gyfer tymor y Cyngor hwn, bydd y weinyddiaeth yn parhau i ymrwymo i fuddsoddi mewn mannau chwarae i blant gan wella o leiaf 75 ohonyn nhw yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Yn ogystal â'r buddsoddiad yma, bydd 10 Ardal Gemau Amldefnydd newydd yn cael eu datblygu ledled RhCT. Fis diwethaf, cyhoeddwyd manylion rhaglen fuddsoddi'r Cyngor ar gyfer 2022/23. Bydd hyn yn cynnwys gwella cyfleusterau 19 o fannau chwarae i blant yn rhan o fuddsoddiad gwerth £672,000. Ychwanegodd y Cynghorydd Crimmings fod disgwl i fan chwarae Bryn Hyfryd yn ward y Cynghorydd Davis gael ei wella yn rhan o waith adnewyddu rhannol o dan y rhaglen hon.

Dyweddodd y Cynghorydd Crimmings y bydd cyfanswm o £4.8 miliwn wedi'i ddyrrannu i gyflawni gwelliannau mewn tua 130 o gyfleusterau ledled RhCT yn y saith mlynedd diwethaf, gan gynnwys y buddsoddiad eleni.

Dim Cwestiwn Ategol

2. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Grehan i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion lechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol B Harris:

"Mae'r arfer bresennol o roi pobl ifainc i fyw yng nghanol ardaloedd preswyl a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer pobl hŷn i fyw yn ynddyn nhw yn creu problemau enfawr. Ydy'r Cyngor yn fodlon ystyried, unwaith eto, neilltuo rhai ardaloedd preswyl ar gyfer pobl hŷn yn unig?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol B Harris:

Dyweddodd y Cynghorydd Harris fod gan ddatblygiadau tai cymdeithasol sydd wedi'u creu'n benodol ar gyfer pobl hŷn, megis tai lloches neu lety i bobl hŷn, feini prawf o ran oedran (60 oed neu'n hŷn, ac mewn rhai achosion 55 oed neu'n hŷn). Os yw pobl iau wedi derbyn lle mewn datblygiadau tai cymdeithasol eraill,

mae hyn gan nad yw'r cynllun wedi'i ddatblygu ar gyfer pobl hŷn yn benodol, ond mae'n bosibl bod polisi gosod lleol wedi cael ei roi ar waith ar ryw adeg i sicrhau mai dim ond preswylwyr hŷn oedd yn byw yno.

Ychwanegodd y Cyngorydd Harris fod polisiau gosod lleol yn bolisiau dros dro ac felly unwaith y maen nhw'n dod i ben, bydd unrhyw ddyraniadau pellach yn cael eu gwneud gan flaenoriaethu'r bobl sydd â'r angen mwyaf am dai. Os oes problemau parhaus mewn datblygiad penodol, bydd y Gymdeithas Dai yn cysylltu â'r Cyngor i drafod gweithredu polisi gosod lleol.

Dyweddodd y Cyngorydd Harris y byddai'r polisi yn nodi'r mein prawf ar gyfer dyrannu eiddo yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd, er enghraifft efallai y byddai angen cymsgedd gwell o denantiaid - megis cydbwysedd rhwng pobl hŷn a phobl iau. Ychwanegodd fod y Cyngor wedi datblygu nifer o ddatblygiadau Gofal Ychwanegol hefyd yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, gan ddarparu unedau hunangynhwysol o ansawdd uchel ar gyfer pobl hŷn sydd angen gofal a chymorth.

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D Grehan;

"Mae yna dri pherson sydd â phroblemau cyffuriau sydd wedi symud i mewn i fflatiau yn fy ward yn ddiweddar. Maen nhw wedi newid awyrgylch y lle ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar y preswylwyr presennol. A fydd y Cyngor yn ystyried mabwysiadu'r polisi gosod sy'n berthnasol ar gyfer y datblygiad yma fel y gall y preswylwyr hŷn fod yn sicr na fydd unrhyw un arall gyda phroblemau cyffuriau yn symud i mewn?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol B Harris:

"Roedd y Cyngorydd Harris wedi cydnabod natur y mater a chadarnhaodd y byddai'n ymateb i'r Cyngorydd Grehan ynglŷn â'r achos penodol hwn maes o law"

3. Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A S Fox i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion lechyd y Cyhoedd a Chymunedau, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol B. Harris:

"Pa gamau gweithredu ydy'r Cyngor yma'n eu cymryd i wella diogelwch y cyhoedd yn ein cymunedau?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol B Harris:

Dyweddodd y Cyngorydd Harris fod sicrhau bod RhCT yn lle diogel, gyda lefelau

cydlyniant cymunedol uchel, lle mae trigolion yn teimlo'n ddiogel, yn cynrychioli un o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor o ran creu lleoedd y mae pobl yn falch o fyw, gweithio a chwarae ynddyn nhw. Ychwanegodd fod Carfan Cymunedau Diogel y Cyngor yn gyfrifol am weithio gyda phartneriaid i ymateb i adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan unigolion neu mewn cymunedau, gan ddefnyddio dull wedi'i dargedu yn seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael ag ardaloedd lle mae problemau. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â phobl ifainc mewn cymunedau, ynghyd â'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenciad, a gweithio gydag ysgolion a rhieni i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Dyweddodd y Cynghorydd Harris fod gorfodi'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas ag YGG yn ein cymunedau a chanol trefi sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol yn flaenoriaeth allweddol i leihau effaith camddefnyddio sylweddau ac i hyrwyddo cymunedau mwy diogel a hyderus. Er hynny, roedd y Cynghorydd Harris yn cydnabod bod achosion o YGG wedi cynyddu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19.

Dyweddodd y Cynghorydd Harris fod Aelodau'r Cabinet wedi cytuno i sefydlu Gwasanaeth Wardeiniaid Cymunedol newydd i gefnogi Heddlu De Cymru yn RhCT y mis diwethaf. Ychwanegodd y bydd y Wardeiniaid Cymunedol yn darparu presenoldeb gweladwy fydd yn tawelu meddwl trigolion mewn cymunedau 7 niwrnod yr wythnos, gan ganolbwytio ar ganol trefi a pharciau. Bydd wardeiniaid yn derbyn hyfforddiant manwl ynghylch defnyddio pwerau gorfodi'r Cyngor mewn modd rhesymol i gynnal ein Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus. Dywedodd fod gan y Wardeiniaid Cymunedol rolau a chyfrifoldebau Ataliol ac Ymatebol.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Harris na fydd y Wardeiniaid yn cymryd lle'r Heddlu; byddan nhw'n cefnogi'r gwasanaethau presennol drwy weithio'n agos gyda sefydliadau partner perthnasol. I gloi, dywedodd y Cynghorydd Harris, fel y cytunwyd gan y Cabinet, y byddai'r Cyngor yn darparu cyllid i Heddlu De Cymru ar gyfer 10 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu pellach. Bydd y Swyddogion yma'n gweithio yn RhCT yn unig ond yn parhau i fod dan gyfarwyddyd Heddlu De Cymru.

Dim Cwestiwn Ategol

4. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

“A yw'r Arweinydd o'r farn bod angen o leiaf 5 mlynedd er mwyn i GBSRhCT Iunio a gweithredu estyniad i'r ardal bario i breswylwyr â thrwydded, gan gynnwys polisi sy'n ymwneud â thrwyddedau busnes, yn ward Trallwng?”

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

Dyweddodd y Cynghorydd Morgan fod y cynllun parcio diweddaraf i breswylwyr yn ardal Trallwng wedi cael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2015. Oherwydd nifer y busnesau sydd wedi'u lleoli yn ardal Trallwng a'r cyffiniau, roedd angen adolygu a diwygio'r polisi, gan y byddai unrhyw estyniad i'r parth parcio yn debygol o gael effaith negyddol arnyn nhw.

Ychwanegodd y Cynghorydd Morgan fod galw i ehangu'r parth wedi'i nodi yn rhan o'r adolygiad hwnnw ond yn y blynyddoedd ers yr adolygiad, mae'r garfan sy'n gyfrifol am ddarparu Parthau Parcio i Breswylwyr wedi wynebu pwysau sylweddol ar yr adnoddau sydd ar gael o ganlyniad i ddigwyddiadau annisgwyl megis Storm Dennis a'r pandemig, yn ogystal â rhaglen gyfalaf ar gyfer gwella'r priffyrrd a Chynlluniau Diogelwch y Ffydd sy'n heriol.

Serch hynny, roedd y Cynghorydd Morgan wedi cydnabod bod y broses wedi cymryd llawer yn hirach na'r disgwyl. Fodd bynnag, cadarnhaodd fod swyddogion wedi rhoi gwybod bod yr adolygiad o'r polisi bellach wedi'i gwblhau a bydd yr adolygiad yn cael ei rannu ag ef yn ystod y diwrnodau nesaf. Ar ôl cymeradwyo'r polisi, bydd modd i Swyddogion barhau i fwrr ymlaen â'r newidiadau angenheidol i'r Parth Parcio i Breswylwyr yn ardal Trallwng. Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod angen ymddiheuro i'r Cynghorydd Powell am yr oedi o ran gweithredu'r cynllun.

Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell:

“A fydd y cynllun yn cael ei weithredu yn y flwyddyn ariannol hon?”

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

Dyweddodd y Cynghorydd Morgan y byddai hyn yn digwydd yn dilyn yr adolygiad.

5. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Maohoub i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

“All Arweinydd y Cyngor roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau llifogydd amrywiol sydd ar y gweill ac sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ledled RhCT, gan gynnwys yn ward Cwm-bach?”

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

Dyweddodd yr Arweinydd y byddai'n darparu ymateb cryno, a hynny'n dilyn ei ddatganiad yn gynharach yn y cyfarfod a oedd yn amlinellu gwaith allweddol y Cyngor mewn perthynas â'r gwaith lliniaru llifogydd.

Dyweddodd y Cynghorydd Morgan fod cyllid gwerth £3.3 miliwn wedi'i sicrhau ar gyfer 2022/23 ar hyn o bryd, ac mae'n bosibl y bydd cyllid ychwanegol gwerth £2.92 miliwn yn cael ei ddyrannu yn rhan o Lif Prosiectau Mawr Rheoli Perygl Llifogydd Llywodraeth Cymru, gan ddod â'r cyfanswm i £6.7 miliwn.

Amlinelloedd y Cynghorydd Morgan y cynlluniau llifogydd amrywiol ledled RhCT ac yn ward Cwm-bach fel a ganlyn:

Mae gwaith adeiladu wedi dechrau yn:

- Cynllun Lliniaru Llifogydd Teras Bronallt Uchaf (yn Abercwmboi), a'r;
- A4059 yn y Drenwydd, Aberpennar

Mae gwaith hefyd ar fin cael ei gwblhau yn Nheras y Waun (Ynys-hir) a gwaith adnewyddu cwlferi o dan Ffordd y Rhigos (Hirwaun) gwerth dros £500,000.

- Mae ward Cwm-bach wedi elwa o fuddsoddiad mewn 5 prosiect, sy'n cynrychioli buddsoddiad gwerth cyfanswm o dros £1 miliwn ers mis Chwefror 2020.
- Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu achos busnes ar gyfer ail gam y cynllun er mwyn gwella'r cwrs dŵr, gan fanteisio ar y gwaith atal sgwrio sydd wedi'i gwblhau y tu ôl i Deras Siôn.

Soniodd y Cynghorydd Morgan am y prosiectau hynny sydd eisoes wedi'u cwblhau yn ward Cwm-bach ers mis Chwefror 2020:

- Cynllun Lliniaru Llifogydd Ystad Ddiwydiannol Cwm-bach (Cronfa Ffyrdd Cydnerth) - £700,000
- Cilfach Heol Cefn Pennar (Cynllun Graddfa Fach) - £25,000
- Gwaith sgwrio y tu ôl i Deras Siôn – cam 1 (Cynllun Graddfa Fach) - £129,000
- Cilfach Bro Deg/Teras Siôn a Gerddi Glaw (Cynllun Graddfa Fach) - £125,000
- Ymyriadau Brys ar gyfer difrod i gwlfperi/cyrsiau dŵr (Cyllid Ewropeaidd) –

Amcangyfrif o £50,000-100,000

Dim Cwestiwn Ategol

6. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Addiscott i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol T Leyshon:

“Sut mae'r Cyngor hwn yn bwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer cyflwyno Mannau Gwefru Cerbydau Trydan ledled Rhondda Cynon Taf?”

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol T Leyshon:

Dyweddodd y Cynghorydd Leyshon fod y Cyngor wedi cyhoeddi ym mis Mai 2022 ei fod wedi sicrhau cyllid i osod Mannau Gwefru Cerbydau Trydan mewn 31 maes parcio ledled y Fwrdeistref Sirol, a hynny ar ôl gweithio'n agos gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ar raglen ranbarthol ar gyfer mannau gwefru.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Leyshon fod gwaith gosod mannau gwefru bellach wedi dechrau a'r bwriad yw y bydd yr holl Fannau Gwefru Cerbydau Trydan wedi'u gosod erbyn diwedd yr haf. RhCT yw'r Awdurdod Lleol cyntaf yn y rhanbarth i ddechrau'r gwaith yma. Ychwanegodd y bydd 20 o fannau gwefru yn cael eu gosod mewn wyth safle yng ngogledd Cwm Cynon, gan gynnwys 2 ym Mhenderyn.

Dyweddodd y Cynghorydd Leyshon fod y Cyngor hefyd yn gwneud cais am gyllid pellach i osod rhagor o fannau gwefru mewn lleoliadau ychwanegol ledled RhCT erbyn diwedd 2022/23. Mae cynyddu argaeedd Mannau Gwefru Cerbydau Trydan ledled y Sir ar gyfer trigolion nad oes modd iddyn nhw wefri cerbydau gartref yn rhan allweddol o ymrwymiad Newid Hinsawdd ehangach y Cyngor.

Yn ei hymateb, dywedodd y Cynghorydd Leyshon fod y Cyngor o'r farn ei bod hi'n bwysig hybu'r defnydd o gerbydau trydan gan eu bod yn cynhyrchu llai o allyriadau na cherbydau petrol a diesel, a byddai defnydd ehangach yn cael effaith fuddiol ar ansawdd aer a'r amgylchedd lleol. I gloi, dywedodd y Cynghorydd Leyshon ei bod yn hanfodol i'r Cyngor "ddilyn ei bregeth ei hun" a hefyd parhau i chwarae ei ran wrth arwain yr agenda werdd yn lleol. Yn rhan o'r ymrwymiad yma, bydd y Cyngor yn trosglwyddo i gerbydau trydan lle bo modd a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn y dyfodol agos mewn perthynas â'r mater yma.

Dim Cwestiwn Ategol

7. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Emanuel i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

“Sut mae'r Cyngor yn cefnogi aelwydydd incwm isel i ymateb i'r pwysau o ran costau tanwydd cartrefi yn cynyddu?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

Dyweddodd y Cyngorydd Morgan ein bod ni'n wynebu'r argyfwng costau byw gwaethaf ers degawdau, a hynny'n dilyn degawd o gyni o dan y Blaid Geidwadol a phandemig COVID-19, ac ychwanegodd fod ymchwil wedi dangos y bydd aelwydydd tlotach yn teimlo effeithiau hyn yn fwy nag eraill oherwydd bod cyfran uwch o incwm yn cael ei gwario ar fwyd ac ynni.

Dyweddodd y Cyngorydd Morgan fod gwaith ymchwil yn dangos nad yw gweithio'n cynnig modd o fynd i'r afael â thlodi, sy'n rhyfeddol yn yr 21^{ain} Ganrif. Dywedodd y Cyngorydd Morgan fod Llywodraeth Cymru, yn ôl yr arfer, yn mynd cam ymhellach i ddarparu cymorth na'r Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan. Er enghraifft, mae 95% o aelwydydd cymwys yn RhCT wedi derbyn y taliadau costau byw (£150 neu £100) ac mae'r bobl dlotaf yng Nghymru yn cael cymorth.

Roedd y Cyngorydd Morgan wedi cydnabod gwaith ac ymrwymiad carfanau cyllid y Cyngor, o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol a'r Prif Weithredwr, ar ôl i'r Cyngor dderbyn canmoliaeth gan ei fod eisoes wedi talu dros £1.8 miliwn yn rhan o'r Cynllun Cymorth Costau Byw yn ôl Disgresiwn i dros 26,000 o aelwydydd cymwys. Anfonwyd llythyr â chyfarwyddiadau ar sut i wneud cais i bob cartref cymwys.

Dyweddodd y Cyngorydd Morgan fod y Cyngor wedi darparu cymorth i'r Banciau Bwyd a chynlluniau bwyd trwy daliad untro gwerth £50,000 i'w galluogi i barhau â'u gwaith hanfodol yn cefnogi'r cymunedau lleol. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi cefnogi'r cynlluniau bwyd i'r gymuned a hefyd wedi defnyddio cyllid LIC ar gyfer y cynlluniau yma i gefnogi trigolion lleol. I gloi, cadarnhaodd y Cyngorydd Morgan ein bod ni hefyd yn gweithio tuag at ddarparu pecyn cymorth pellach i gefnogi trigolion yn ystod y Gaeaf, a hynny'n rhan o ymrwymiadau maniffesto Plaid Lafur RhCT ar gyfer tymor y Cyngor yma.

11 Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad - Cwm Taf Morgannwg

Rhoddodd y Llywydd wybod mai'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad -

Cwm Taf Morgannwg fyddai'n cael ei drafod nesaf, er nad yw hyn yn cyd-fynd â threfn yr agenda, er mwyn i Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant adael y cyfarfod gan fod adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol yn cyfeirio ato fe mewn perthynas â phenodi Prif Weithredwr.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant yr adroddiad, sy'n cynnig trosolwg o'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (MSR) yn unol ag Adran 144B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae rhwymedigaeth statudol ar yr Awdurdodau Lleol i lunio'r asesiad yma bob pum mlynedd ac i wneud hynny ar lefel ranbarthol mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod yr adroddiad yn rhoi asesiad o ddau beth, digonolrwydd gofal a chymorth i fodloni galw ein poblogaeth a sefydlogrwydd y farchnad mewn perthynas â'r gwasanaethau rheoleiddiedig sy'n darparu gofal. Ychwanegodd fod yr wybodaeth, fel sydd wedi'i nodi'n llawn yn yr atodiadau, yn darparu asesiad manwl o ddigonolrwydd a sefydlogrwydd ar draws yr holl ddarpariaeth ofal sy'n cynnwys oedolion, plant, anableddau dysgu, iechyd meddwl, cynhalwyr di-dâl ac eraill.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Cyfadran y bydd angen i'r Cyngor a'i bartneriaid drafod y canfyddiadau a'r argymhellion allweddol sydd wedi'u crynhoi yn adran 4 o'r adroddiad er mwyn llywio gwaith datblygu'r Strategaethau a'r Gwasanaeth Comisiyny dros y pum mlynedd nesaf, yn ogystal â llywio'r cynllun rhanbarthol gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Tynnwyd sylw at bedwar maes allweddol fel meysydd ffocws ar gyfer Cyngor Rhondda Cynon Taf, ac mae'r rhain wedi'u cefnogi gan y dystiolaeth yn yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, sef pwynt 3.3 yn yr adroddiad.

I gloi, tynnodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sylw'r Aelodau at yr argymhellion, yn enwedig bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â dyletswyddau statudol y Cyngor.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fod Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi penderfynu yn ei gyfarfod diweddar i gynnal gwaith cyn y cam craffu mewn perthynas â'r materion sy'n ymwneud â gofal preswyl a nodir yn rhaglen waith y Cabinet.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r negeseuon allweddol a'r argymhellion, a
 - Cymeradwyo'r adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Ranbarthol;

- **Cymeradwyo'r blaenoriaethau strategol tymor byr - tymor canolig canlynol ar gyfer Rhondda Cynon Taf sy'n deillio o'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad:**

- i. Adolygiad strategol o lety â gofal ar gyfer pobl sy'n agored i niwed i sicrhau bod darpariaeth yn y dyfodol yn diwallu anghenion pobl ag anghenion cymhleth fel sydd wedi'i nodi yn yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad a'n bod ni'n manteisio i'r eithaf ar ein cyfleusterau;
- ii. Cryfhau ymateb y Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd o ran sicrhau bod digon o leoliadau ar gael ar gyfer plant sy'n derbyn gofal drwy gynyddu'r ddarpariaeth leol ddi-elw (gofal preswyl a gofal maeth) a hynny er mwyn diwallu anghenion plant yn nes at eu cartrefi;
- iii. Gweithio gyda darparwyr i ddatblygu modelau gwasanaeth integredig cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned, gan gynnwys gofal cartref, i fynd i'r afael â phwysau ar y gweithlu; a
- iv. Cynyddu argaeledd gwasanaethau seibiant i oedolion a phlant.

(Nodwch: Gadawodd y Cynghorwyr D R Bevan a M Rees-Jones y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ynglŷn â'r eitem yma, cofnod rhif 6, gan eu bod nhw wedi datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu).

(Nodwch: Roedd y Cyfarwyddwr Cyfadran eisoes wedi datgan buddiant personol mewn perthynas ag eitem 10, Penodi Prif Weithredwr, ac felly wedi gadael y cyfarfod am weddill y cyfarfod (Cofnod Rhif 6).

12 Calendr O Gyfarfodydd Ar Gyfer 2022-2023

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad gan roi gwybod bod gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas ag amseroedd cyfarfodydd, sydd wedi dod i law ers CCB y Cyngor ac sy'n deillio o'r arolwg i Aelodau Etholedig, wedi llywio'r calendr o gyfarfodydd terfynol. Mae'r calendr i'w weld yn Atodiad 1.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylw at ganlyniadau allweddol yr arolwg i Aelodau mewn perthynas ag amseroedd cyfarfodydd, lefel y gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau gan Uned Fusnes y Cyngor a chynnal cyfarfodydd y tu allan i wyliau ysgol. Er bod gofyniad statudol ar Benrhwyt y Gwasanaethau Democrataidd i gynnal arolwg mewn perthynas ag amseroedd cyfarfodydd â'r holl Aelodau, nododd nad ydyn wedi'n rhwymo i'r wybodaeth yn yr adroddiad a dylai cadeiryddion y pwylgorau ei defnyddio fel canllaw wrth bennu amser ar

gyfer eu cyfarfodydd priodol.

I gloi, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bydd adroddiad manylach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd yn y dyfodol er mwyn trafod canlyniadau'r ymatebion a ddaeth i law, yn ogystal â Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd a fydd yn cael ei chyhoeddi yn yr hydref.

Nodwyd y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal cyn cyfarfod y Cyngor ym mis Medi gyda chynrychiolwyr o Trivallis a bydd sesiynau tebyg yn cael eu cyhoeddi maes o law.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad; ac wrth wneud hynny, nodi'r ymatebion i'r Arolwg Aelodau Etholedig mewn perthynas ag Amser y Cyfarfodydd, fel yr amlinellir ym mharagraff 4.
2. Nodi'r Calendr o Gyfarfodydd arfaethedig ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022-23, fel sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad; a
3. Nodi bod y calendr drafft yn destun newid, yn seiliedig ar ofynion busnes dros flwyddyn nesaf y Cyngor. Caiff unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau eu gwneud ar y cyd â chadeiryddion y pwyllgorau priodol.

13 Rhaglen Waith y Cyngor 2022/23

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu Raglen Waith y Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/23 gan ddweud y byddai unrhyw newidiadau a diweddariadau yn cael eu hadrodd ar lafar i'r Cyngor bob mis, bydd hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r rhaglen waith y cytunwyd arni.

Yn dilyn trafodaeth mewn perthynas â'r rhaglen waith (Atodiad 1) ac ar ôl cael cadarnhad y byddai cynrychiolwyr o gyrrf cyhoeddus eraill megis Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, yn ogystal â Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, yn cael eu gwahodd i sesiwn cyn cyfarfod y Cyngor i Aelodau Etholedig.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r Rhaglen Waith ddrafft sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad;
a

2. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022-2023 (gyda diwygiadau priodol lle bo angen) a derbyn diweddfiadau pellach gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fel y bo'n briodol.

14 Adroddiad ar Benderfyniadau Gweithredol Brys

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu 17.2(a), cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu drosolwg o'r Penderfyniadau Brys a gyflwynwyd gan Bwyllgor y Cabinet a Phenderfyniadau Dirprwyedig Swyddog Allweddol Brys a gyflwynwyd y tu allan i Bwyllgor y Cabinet yn ystod y cyfnod Ionawr - Mehefin 2022.

Darparodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol ddiweddariad mewn perthynas â Chynllun Cymorth Costau Byw Llywodraeth Cymru yn sgil y Penderfyniad Brys a gafodd ei wneud gan yr Arweinydd yn ystod y cyfnod Ionawr-Mehefin 2022. Ychwanegodd fod 5,000 o lythyrau atgoffa wedi'u hanfon at drigolion i'w hannog nhw i wneud cais am y taliad o £50 i deuluoedd. Cadarnhaodd fod yr holl daliadau Prydau Ysgol am Ddim wedi cael eu talu.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

15 Adolygiad o Raddau Isaf y Cyngor a Materion o ran Telerau ac Amodau

Yn unol â Chofnod Rhif 4 o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Mai 2022, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol fod y Pwyllgor Penodiadau wedi penderfynu ar 5 Gorffennaf 2022 y dylid penodi Mr. Paul Mee i swydd y Prif Weithredwr, a hynny'n dilyn y broses asesu a'r broses gyfweld. Roedd modd iddo gadarnhau argymhelliaid unfrydol y Pwyllgor Penodiadau, a gafodd ei wneud ar ail ddiwrnod y broses, sef y dylid penodi Mr Paul Mee i swydd y Prif Weithredwr.

Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau, y Cynghorydd Ros Davies, fod y penderfyniad i benodi Mr Paul Mee i swydd y Prif Weithredwr yn benderfyniad unfrydol.

PENDERFYNWYD – cadarnhau argymhelliaid y Pwyllgor Penodiadau ynghylch penodi Mr. Paul Mee i swydd barhaol y Prif Weithredwr o 1 Rhagfyr 2022.

16 Penodi Prif Weithredwr

Yn unol â Chofnod Rhif 4 o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Mai 2022, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol fod y Pwyllgor Penodiadau wedi penderfynu ar 5 Gorffennaf 2022 y dylid penodi Mr. Paul Mee i swydd y Prif Weithredwr, a hynny'n dilyn y broses asesu a'r broses gyfweld. Roedd modd iddo gadarnhau argymhelliaid unfrydol y Pwyllgor Penodiadau, a gafodd ei wneud ar ail ddiwrnod y broses, sef y dylid penodi Mr Paul Mee i swydd y Prif Weithredwr.

Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau, y Cyngorydd Ros Davies, fod y penderfyniad i benodi Mr Paul Mee i swydd y Prif Weithredwr yn benderfyniad unfrydol.

PENDERFYNWYD – cadarnhau argymhelliaid y Pwyllgor Penodiadau ynghylch penodi Mr. Paul Mee i swydd barhaol y Prif Weithredwr o 1 Rhagfyr 2022.

17 **ADRAN 3A – CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD – SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Gynllun Dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol yr Arweinydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/2023 a rhoddodd wybod i'r Cyngor Llawn am y cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer Is-bwylgorau'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a'r Hinsawdd, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y ddau Grŵp Llywio dan sylw bellach yn Is-bwylgorau'r Cabinet a bod ganddyn nhw awdurdod dirprwyedig gan Arweinydd y Cyngor i wneud penderfyniadau gweithredol yn unol â'u cylch gorchwyl. Ychwanegodd nad yw'r trefniadau diwygiedig hyn ar gyfer gwneud penderfyniadau yn atal unrhyw amgylchiadau lle byddai modd i'r is-bwylgorau gyfeirio mater o arwyddocâd strategol i'r Cabinet er mwyn gwneud penderfyniad.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at aelodaeth y cynllun a chadarnhaodd fod y Cyngorydd C Lisles wedi'i henwebu gan Arweinydd Grŵp Annibynnol RhCT i Bwyllgor CYSAG.

Rhoddwyd gwybod y bydd rhagor o fanylion am yr hyrwyddwyr yn cael eu rhannu a'u dosbarthu maes o law.

PENDERFYNWYD nodi Adran 3A - Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol yr Arweinydd, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

18 **Aelodaeth y Pwyllgor Safonau**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol ei adroddiad ar y cyd

mewn perthynas â'r broses i'w dilyn i lenwi lleoedd gwag Pwyllgor Safonau'r Cyngor, yn benodol Aelod Annibynnol (lleyg) ac aelod cynrychioli'r Cyngor Cymuned (ynghyd ag Aelod wrth gefn).

Dyweddodd y Cyfarwyddwr fod cyfnod swydd un o'r aelodau annibynnol, Mr. Mel Jehu, a'r Aelod o'r Cyngor Cymuned, y Cynghorydd Ray Butler, yn dod i ben ac felly mae angen ystyried penodi aelod annibynnol newydd ac aelod o'r Cyngor Cymuned.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr y weithdrefn benodi arfaethedig yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 mewn perthynas â'r Aelod Annibynnol, gan gynnwys hysbysebu'r swydd wag a gofynion y panel penodi. Hefyd, rhoddodd wybod i'r Cyngor am y weithdrefn i benodi Aelod Cyngor Cymuned newydd ac y byddai argymhelliaid yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn maes o law.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn:

1. Cytuno i hysbysebu rôl yr Aelod Annibynnol (lleyg) ar gyfer Pwyllgor Safonau'r Cyngor, yn seiliedig ar y mein prawf sydd wedi'i sefydlu a'i nodi yn yr adroddiad;
2. Cytuno i ymgynghori â Chynghorau Cymuned mewn perthynas â gwahodd ceisiadau gan Gynghorwyr Cymuned ar gyfer swydd wag yr Aelod Cyngor Cymuned (ynghyd ag Aelod wrth gefn) ar gyfer Pwyllgor Safonau'r Cyngor;
3. Yn amodol ar 2.1 a 2.2 uchod, sefydlu Panel Penodiadau i ystyried ceisiadau i benodi Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o chwe blynedd ac Aelod Cyngor Cymuned (ynghyd ag Aelod wrth gefn) am gyfnod hyd at yr etholiadau cyffredin nesaf (yn 2027);
4. Enwebu tri Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol (2 o'r grŵp rheoli ac 1 o grŵp yr wrthblaid fwyaf) a Chadeirydd presennol y Pwyllgor Safonau i fod yn aelodau o'r Panel Penodiadau;
5. Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol i benodi Cynghorydd Cymuned i'r Panel Penodiadau; a
6. Cytuno i dderbyn adroddiad pellach ac ystyried unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r Panel Penodiadau sy'n cwrdd i gyfweld ag unrhyw ymgeiswyr sy'n ymgeisio am y rolau gwag, yn amodol ar yr uchod.

Yn unol â gofynion Cod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, rhannodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol wybodaeth â'r Aelodau mewn perthynas â:

- Gweithgarwch Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2021/22; a
- Gwir Ddangosyddion Darbodus a Dangosyddion y Trysorlys ar gyfer 2021/22

Cyn mynd ati i nodi meysydd allweddol yr adroddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr fod gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn cael eu rheoleiddio a'u llywodraethu gan nifer o godau ymarfer ac maen nhw wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf gan y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad blaenorol. Cadarnhaodd fod yr adroddiad blynnyddol yn bodloni gofynion y codau priodol y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn.

I gloi, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y bydd hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Aelodau Etholedig yn cael ei drefnu ochr yn ochr â chyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

- Nodi cynnwys yr adroddiad; a
- Cytuno ar y cynigion ariannu ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fel sydd wedi'u nodi yn adran 13.

